**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**

# DATGANIAD POLISI TRWYDDEDU

## DEDDF TRWYDDEDU 2003

Kelly Watson
Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Yr Isadran Trwyddedu a Chofrestru, Y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol
Y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB

**Bydd y ddogfen bolisi gymeradwy hon hefyd ar gael yn Saesneg ac mewn fformatau eraill ar gais, ac yn www.bridgend.gov.uk**

**Dyddiad Cymeradwyo:**

**Mae mewn grym am bum mlynedd o'r dyddiad cymeradwyo**
**Adolygiad CIP i'w gyhoeddi yn**

**CYNNWYS**


| ADRAN | TESTUN | |
|---|---|---|
| | **Rhagair** | |
| 1 | Cyflwyniad | 3 |
| 2 | Proffil o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 3 |
| 3 | Cwmpas a Chyfyngiad | 5 |
| 4 | Ceisiadau | 6 |
| 5 | Gwneud Penderfyniadau – Polisi Cyffredinol | 6 |
| 6 | Effaith Gronnus – Polisi Arbennig | 9 |
| 7 | Amddiffyn Plant rhag Niwed | 11 |
| 8 | Integreiddio Strategaethau | 12 |
| 9 | Camau i Hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu | 13 |
| 10 | Cydymffurfio | 18 |
| 11 | Gweinyddu, Cyflawni a Dirprwyo Swyddogaethau | 18 |
| 12 | Adolygiadau | 19 |
| 13 | Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro | 19 |
| 14 | Nodiadau Arbennig | 20 |
| 15 | Ymgynghori | 20 |
| 16 | Apeliadau | 20 |
| | | |
| | | |
| | | |
| Atodiad Un | Manylion Cyswllt Awdurdodau Cyfrifol | 21 |
| Atodiad Dau | Tystiolaeth mewn perthynas â’r polisi ar effaith gronnus | 22 |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yw'r awdurdod trwyddedu lleol sy'n gyfrifol am safleoedd trwyddedig dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Mae'r Datganiad Polisi Trwyddedu hwn yn cyflwyno'r polisïau y bydd yr awdurdod trwyddedu yn eu cymhwyso wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau trwyddedu ac adolygiadau. Paratowyd y polisi hwn yn unol â Deddf Trwyddedu 2003 gan roi sylw i'r Canllawiau Statudol a gyhoeddwyd dan adran 182 o'r Ddeddf. Mae'r Canllawiau Statudol ar gael i'w gweld yn: http://www.homeoffice.gov.uk/publications/alcohol

1.2 Bydd y Datganiad Polisi Trwyddedu hwn yn cael ei adolygu a'i gyhoeddi yn unol ag Adran 5 o Ddeddf Trwyddedu 2003. Gall fod yn ofynnol ei ystyried a'i adolygu ymhellach mewn ymateb i newidiadau mewn demograffeg a modelau gweithredu a allai ddatblygu mewn ymateb i bwysau ariannol cynyddol ar lywodraeth leol.

1.3 I osgoi dyblygu ac i sicrhau bod gwybodaeth yn gyfoes, bydd ymgeiswyr, trigolion a phobl eraill, aelodau o'r cyhoedd ac awdurdodau cyfrifol yn cael eu cyfeirio at www.homeoffice.gov.uk i gael gwybodaeth am y prosesau trwyddedu.

## 2. PROFFIL O FWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

2.1 Mae ardal y Cyngor yn cynnwys cymysgedd o gymunedau trefol a gwledig, ac mae ganddi boblogaeth o oddeutu 139,178. (Ffynhonnell y data: Tabl KSI01UK ar wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cyfrifiad y DU 2011).

Pen-y-bont, Maesteg a Phorthcawl yw'r prif drefi.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi'r weledigaeth a blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod o 2018 i 2022:

"Mae'r polisi'n cefnogi Blaenoriaeth Un y Cynllun Corfforaethol

Blaenoriaeth Un: Cefnogi Economi Lwyddiannus

Mae hyn yn golygu y byddwn yn cymryd camau i wneud y Sir yn lle da i wneud busnes, i bobl fyw, gweithio, astudio ac ymweld â hi, ac i sicrhau bod ein hysgolion yn canolbwyntio ar wella sgiliau, cymwysterau ac uchelgeisiau holl bobl y sir.

Ein hamcanion

* Helpu pobl leol i ddatblygu sgiliau a manteisio ar gyfleoedd i lwyddo ac ymestyn y llwyddiant hwnnw i bob cymuned yn y fwrdeistref sirol
* Creu amodau ar gyfer twf a mentergarwch
* Creu canol trefi llwyddiannus"
Ffynhonnell: www.bridgend.gov.uk

2.2 Mae'r polisi hwn yn cysylltu â nifer o themâu a strategaethau corfforaethol y Cyngor ond dyletswydd y Cyngor yn y pen draw, fel yr awdurdod trwyddedu, yw hybu'r amcanion trwyddedu canlynol.

- Atal troseddau ac anhrefn,
- Diogelwch y cyhoedd,
- Atal niwsans cyhoeddus ac
- Amddiffyn plant rhag niwed.

2.3 I annog mwy o berfformiadau o ran cerddoriaeth fyw, fe ddiwygiodd Deddf Cerddoriaeth Fyw 2012 Ddeddf Trwyddedu 2003 trwy ddadreoleiddio agweddau ar berfformio cerddoriaeth fyw fel bod cerddoriaeth fyw ddim yn weithgaredd trwyddedadwy dan rai amgylchiadau. Fodd bynnag, dylai trefnwyr digwyddiadau a deiliaid awdurdodiadau fynd at www.homeoffice.gov.uk i gael mwy o wybodaeth cyn llwyfannu digwyddiad.

2.4 Gwahoddir busnesau newydd neu fusnesau sy’n ystyried ymgymryd â gwaith adnewyddu helaeth i drafod y cynigion gyda’r awdurdodau sy’n gyfrifol ac adrannau eraill yn y Cyngor cyn cyflwyno cais.

2.5 Lle bynnag y bo’n bosib, bydd y Cyngor yn ymrwymo i drefniadau partneriaeth, gan weithio’n agos gyda Heddlu De Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, busnesau lleol, cynrychiolwyr cymunedau a phobl leol i ddatblygu Datganiadau Polisi Trwyddedu yn y dyfodol a chwrdd â’r amcanion trwyddedu. Mae’r awdurdod wedi mabwysiadu Memorandwm Dealltwriaeth a phrotocol gorfodi gydag awdurdodau cyfrifol sy’n bartneriaid iddo. Mae’r awdurdod trwyddedu hefyd yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gydag awdurdodau cyfrifol i drafod arfer gorau, rhannu gwybodaeth a hybu’r amcanion trwyddedu trwy ddull o gydymffurfio sy’n ymateb i’r risgiau ac sydd wedi’i dargedu. Mae’r grŵp hefyd yn cefnogi mesurau i gynorthwyo a gweithio gyda’r fasnach drwyddedig leol ac asiantaethau partner allweddol. Gellir gweld copïau o’r protocolau yn www.bridgend.gov.uk

2.6 Mae’n rhaid i drefnwyr digwyddiadau cymunedol lleol fod yn ymwybodol bod yn rhaid i’r awdurdod trwyddedu roi parch a sylw dyladwy i bryderon trigolion lleol, ac mae’n rhaid i drefnwyr fod yn ymwybodol o’u cyfrifoldebau cyfreithiol mewn perthynas ag iechyd a diogelwch, llygredd sŵn, adeileddau dros dro, pyrotechneg ac ati, a gwerthu alcohol. Cynghorir trefnwyr yn cryf i gysylltu â’r Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Digwyddiadau yn y Cyngor i gael cyngor ynghylch cynllunio a chynnal digwyddiad.

## 3. CWMPAS A CHYFYNGIAD

3.1 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y cyfeirir ato wedi hyn fel "y Cyngor") yw'r awdurdod trwyddedu fel a ddiffinnir yn Neddf Trwyddedu 2003 (y cyfeirir ati wedi hyn fel "y Ddeddf")

3.2 Wrth gyflawni ei swyddogaethau trwyddedu, bydd yr awdurdod trwyddedu’n hybu'r amcanion trwyddedu canlynol:

- Atal troseddau ac anhrefn;
- Diogelwch y cyhoedd;
- Atal niwsans cyhoeddus; ac
- Amddiffyn plant rhag niwed.

Mae pob un o’r amcanion uchod yr un mor bwysig â’i gilydd.

3.3 Mae cwmpas y Datganiad Polisi Trwyddedu'n cynnwys y gweithgareddau trwyddedadwy canlynol ac unrhyw weithgareddau trwyddedadwy a ddiffinnir yn Neddf Trwyddedu 2003.

- Adwerthu alcohol (gan gynnwys dros y rhyngrwyd neu archebu trwy'r post).
- Cyfanwerthu alcohol i aelodau o'r cyhoedd.
- Cyflenwi alcohol i aelodau o glybiau cofrestredig.
- Darparu adloniant wedi ei reoleiddio pan ei fod yn cael ei berfformio yng ngŵydd cynulleidfa ac yn cael ei ddarparu at ddiben, neu at ddibenion sy'n cynnwys diben, diddanu'r gynulleidfa honno, gan gynnwys perfformio drama; dangos ffilmiau; digwyddiadau chwaraeon dan do; digwyddiadau bocsio neu reslo, cerddoriaeth fyw; chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio yn unrhyw ffordd; perfformio dawns; adloniant â disgrifiad tebyg; darparu cyfleusterau ar gyfer dawnsio a darparu cyfleusterau ar gyfer gwneud cerddoriaeth.

Mae'r Datganiad Polisi Trwyddedu hwn yn berthnasol i bob cais mewn perthynas â:

- Thrwyddedau personol;
- Trwyddedau safleoedd;
- Tystysgrifau safleoedd clybiau; a
- Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro.

3.4 Mae'r Datganiad Polisi Trwyddedu'n nodi dull cyffredinol o wneud penderfyniadau trwyddedu gan yr awdurdod trwyddedu ond nid yw'n ceisio tanseilio hawl unrhyw unigolyn i wneud cais dan amodau'r Ddeddf am amrywiaeth o ganiatadau ac i gael ystyriaeth i unrhyw gais o'r fath yn ôl ei rinweddau ei hun.

3.5 Nid yw'r Datganiad Polisi Trwyddedu wedi'i fwriadu i wrthwneud hawl unrhyw berson i wneud sylwadau mewn perthynas â chais neu geisio adolygiad o drwydded neu dystysgrif lle ceir darpariaeth yn y Ddeddf i wneud hynny.

3.6 Ni ddylid cymryd bod unrhyw ran o'r polisi hwn yn dynodi y gallai unrhyw ofyniad mewn cyfraith drwyddedu neu mewn unrhyw gyfraith arall gael ei wrthwneud gan y polisi hwn.

## 4. CEISIADAU

4.1 Ni fydd cais neu hysbysiad at ddibenion trwyddedu ond yn cael ei dderbyn fel un a wnaed yn gyfreithlon pan ei fod yn cynnwys yr holl fanylion gofynnol a nodir gan y Ddeddf ac/neu'r rheoliadau. Fodd bynnag, bydd yr awdurdod trwyddedu'n arfer disgresiwn priodol ac yn peidio â gwrthod ceisiadau lle maent yn cynnwys mân wallau neu wallau ffeithiol y gellir eu cywiro'n rhwydd.

4.2 Er mwyn osgoi sefyllfa lle gwneir sylwadau diangen mewn perthynas â chais, cynghorir ymgeiswyr i lenwi pob rhan berthnasol o ffurflen gais. Mae rhai rhannau o'r ffurflen yn orfodol a lle mae materion wedi cael eu hystyried, ond bod teimlad nad ydynt yn berthnasol i'r cais, fe awgrymir, er mwyn osgoi amheuaeth, y dylid marcio'r adran benodol â'r geiriau "ddim yn berthnasol".

4.3 Nid yw caniatáu cais yn arbed yr angen i'r ymgeisydd ateb gofynion unrhyw gyfundrefn reoleiddio neu ofyniad statudol arall.

4.4 Dylai pawb sy’n paratoi atodlenni gweithredu, gan gynnwys rhai ar gyfer digwyddiadau dros dro, nodi bod nifer o gyhoeddiadau ar gael sydd o gymorth i gynllunio digwyddiad. Cynghorir ymgeiswyr i gysylltu â’r cyrff a ddangosir yn Atodiad A i gael mwy o wybodaeth.

## 5. GWNEUD PENDERFYNIADAU – POLISI CYFFREDINOL

5.1 Wrth benderfynu ar gais trwyddedu, y brif egwyddor a fabwysiedir gan yr awdurdod trwyddedu fydd bod gan unrhyw unigolyn yr hawl i wneud cais dan amodau Deddf 2003 am amrywiaeth o ganiatadau a bod ganddo’r hawl i gael ystyriaeth i’r cyfryw gais yn ôl ei rinweddau ei hun. Wrth gyflawni ei swyddogaethau bydd yr awdurdod trwyddedu’n ystyried y polisi hwn a’r canllawiau a gyhoeddwyd dan Adran 182 o’r Ddeddf Trwyddedu ond gall wyro oddi wrthynt pan fo rhesymau cryf dros wneud hynny ac yn dilyn derbyn sylwadau perthnasol.

5.2 Os bydd cais am drwydded safle neu dystysgrif safle clwb wedi cael ei wneud yn gyfreithlon ac os na dderbyniwyd unrhyw sylwadau oddi wrth awdurdodau cyfrifol neu bersonau eraill, bydd yr awdurdod trwyddedu’n caniatáu’r cais, ynghyd ag amodau sy'n gyson â'r atodlen weithredu a'r amodau gorfodol perthnasol, a’r amodau hynny yn unig.

5.3 Nid yw’r polisi hwn yn gwrthwneud hawl unrhyw un i gyflwyno sylwadau ar gais neu geisio adolygiad o drwydded neu dystysgrif lle ceir darpariaeth i wneud hynny yn Neddf 2003. Ni fydd unrhyw beth yn y polisi hwn yn gwrthwneud hawl unigolyn i apelio gerbron Llys Ynadon Pen-y-bont ar Ogwr yn erbyn penderfyniadau’r awdurdod trwyddedu.

5.4 Ni fydd yr awdurdod trwyddedu’n gosod unrhyw amodau oni bai fod angen iddo ddefnyddio’i ddisgresiwn wedi i sylwadau perthnasol gael eu gwneud, a'i fod wedi cael ei argyhoeddi mewn gwrandawiad, ei bod yn angenrheidiol gosod amodau o ganlyniad i'r sylwadau a wnaed. Yna ni fydd ond yn gosod amodau yn ôl yr hyn sy'n angenrheidiol i hybu'r amcanion trwyddedu ac ni fydd yn gosod amodau safonol na rhai sy’n dyblygu cyfundrefnau rheoleiddiol eraill cyn belled ag y bo hynny'n bosib. Bydd amodau’n cael eu teilwra i safleoedd unigol ond fe all yr awdurdod dynnu ar gasgliadau o amodau lle ystyrir ei bod yn briodol gwneud hynny.

5.5 Lle bynnag y bo’n ymarferol, bydd swyddogion yr awdurdod trwyddedu’n ceisio anfon unrhyw sylwadau ymlaen at yr ymgeisydd cyn gynted ag y cânt eu derbyn ac nid ar ddiwedd y cyfnod a roddwyd ar gyfer cyflwyno sylwadau. Byddai’r awdurdod trwyddedu’n disgwyl i awdurdodau cyfrifol gychwyn trafodaethau gydag ymgeiswyr ar adeg gynnar yn y broses ymgynghori er mwyn ceisio eglurhad o unrhyw bwyntiau a chyn cyflwyno sylwadau i’r awdurdod trwyddedu. Mae’r awdurdod wedi cytuno gydag awdurdodau cyfrifol y bydd yn derbyn sylwadau a gyflwynir yn electronig.

5.6 Er mwyn tryloywder a thegwch, fel arfer bydd yr awdurdod trwyddedu’n trefnu bod manylion personol pobl ar gael fel rhan o broses y gwrandawiad oni bai fod y person yn gwrthod rhoi caniatâd neu fod rhesymau eithriadol a chymhellol pam fod hyn yn angenrheidiol. Bydd pob achos yn cael ei benderfynu yn ôl ei rinweddau ei hun gan ymgynghori â’r parti dan sylw.

5.7 Mae'n rhaid i sylwadau fod yn ysgrifenedig a gellir helaethu arnynt yn y gwrandawiad dilynol neu gallant fod yn ddigon ynddynt eu hunain. Gellir cyflwyno sylwadau'n electronig i'r awdurdod trwyddedu yn licensing@bridgend.gov.uk ac fe ddylid cynnwys enw a chyfeiriad post y sawl neu'r bobl sy'n cyflwyno sylwadau. Er mwyn tryloywder a thegwch, fel arfer bydd yr awdurdod trwyddedu'n trefnu bod manylion personol pobl ar gael fel rhan o broses y gwrandawiad oni bai fod y person yn gwrthod rhoi caniatâd neu fod rhesymau eithriadol a chymhellol pam fod hyn yn angenrheidiol. Bydd pob achos yn cael ei benderfynu yn ôl ei rinweddau ei hun gan ymgynghori â'r person dan sylw.

5.8 Mae'r awdurdod trwyddedu'n cadw cofrestr o geisiadau a dderbyniwyd yn www.bridgend.gov.uk. Nid yw'r awdurdod trwyddedu a'i swyddogion wedi mabwysiadu unrhyw fesurau ar gyfer hysbysu pobl ynghylch ceisiadau a dderbyniwyd y tu hwnt i'r gofynion statudol.

5.9 Cyn penderfynu ar gais, bydd yr awdurdod trwyddedu'n penderfynu a yw unrhyw sylw neu wrthwynebiad yn amherthnasol, yn wamal neu'n flinderus. Gall yr awdurdod trwyddedu ddirprwyo'r swyddogaeth hon i Is-bwyllgor neu swyddog.

5.10 Bydd y penderfyniadau a wneir gan yr awdurdod trwyddedu'n cynnwys ffocws ar faterion y mae gan drwyddedigion unigol ac eraill y rhoddwyd caniatadau perthnasol iddynt reolaeth arnynt. Bydd y materion hyn yn canolbwyntio ar y safleoedd a'r mannau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy a chyffiniau'r safleoedd a'r mannau hynny. Wrth ymdrin â'r mater hwn, bydd yr awdurdod yn canolbwyntio'n bennaf ar effaith uniongyrchol y gweithgareddau sy'n digwydd yn y safleoedd trwyddedig ar aelodau o'r cyhoedd pan ydynt yn byw, yn gweithio neu'n cymryd rhan mewn gweithgarwch arferol yn yr ardal dan sylw. Nid yw'r awdurdod yn ceisio diffinio'r term "cyffiniau" a bydd yn archwilio pob achos yn ôl ei rinweddau.

5.11 Wrth gyflawni ei swyddogaethau fel awdurdod trwyddedu dan Ddeddf 2003 bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried ei rwymedigaethau dan Adran 17 o Ddeddf Troseddau ac Anhrefn 1998.

5.12 Mae'n ddyletswydd ar yr awdurdod trwyddedu i amddiffyn hawliau trigolion i breifatrwydd a bywyd teuluol dan Erthygl 8 Confensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol yn unol â Deddf Hawliau Dynol 1998. Ar yr un pryd, mae'n parchu hawliau sefydliadau masnachol i weithredu eu safleoedd heb ataliad diangen.

5.13 Mae'r awdurdod trwyddedu'n ymwybodol, unwaith y byddant wedi mynd i ffwrdd o'r safle trwyddedig, y bydd lleiafrif o ddefnyddwyr yn ymddwyn yn wael ac yn anghyfreithlon. Fel a nodir yng Nghanllawiau'r Swyddfa Gartref, mae'r polisi hwn yn cydnabod bod mecanweithiau eraill, o fewn a'r tu allan i'r gyfundrefn drwyddedu, sydd ar gael er mwyn mynd i'r afael â materion o'r fath. Caiff y rhain eu rhestru yng Nghanllawiau'r Swyddfa Gartref. Cynghorir ymgeiswyr fod Gorchmynion Mannau Cyhoeddus Dynodedig yn gymwys i rai rhannau o'r Fwrdeistref Sirol a dylent gysylltu â'r Isadran Drwyddedu i gael mwy o wybodaeth.

5.14 Polisi mewn perthynas â phenderfynu ar amrywiadau i drwyddedau:

Ni all yr awdurdod trwyddedu amrywio trwydded mewn modd sy'n achosi amrywiad sylweddol o ran y safle y mae a wnelo ag ef. Mae'r awdurdod yn ystyried y bydd unrhyw ychwanegiad ffisegol at ôl troed y safle, gan gynnwys ardaloedd awyr

agored, lle gall gweithgareddau trwyddedadwy ychwanegol ddigwydd, yn gyfystyr ag amrywiad sylweddol i'r safle. Fodd bynnag, mae'n rhaid archwilio pob achos yn ôl ei rinweddau ac felly anogir ymgeiswyr i drafod y cynigion gyda'r awdurdod trwyddedu a'r awdurdod tân cyn comisiynu unrhyw waith. Gwahoddir ymgeiswyr i ystyried a yw'r cais yn cyd-daro â'r diffiniad o Fân Amrywiad a nodir yn Neddf Trwyddedu 2003. Wrth asesu ceisiadau yn y categori hwn, bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau gan roi ystyriaeth i'r canllawiau diweddaraf a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref dan Adran 182 o'r Ddeddf.

5.15 Polisi cyffredinol mewn perthynas ag oriau trwyddedu:

Yn unol â Chanllawiau'r Swyddfa Gartref, bydd siopau ac archfarchnadoedd fel arfer yn rhydd i werthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle ar unrhyw adegau pan fo'r siop manwerthu ar agor ar gyfer siopa oni bai fod rhesymau da. Nid oes polisïau lleol a bydd pob achos yn cael ei benderfynu yn ôl ei rinweddau.

5.16 Polisi mewn perthynas ag asesu ceisiadau i atal niwsans cyhoeddus:

Bydd y meini prawf canlynol yn cael eu hystyried wrth asesu ceisiadau yng nghyd-destun atal niwsans cyhoeddus:

- Ansawdd yr amgylchedd;
- Amwynder preswyliol;
- Cymeriad neu swyddogaeth ardal benodol; a
- Natur y gweithgareddau arfaethedig a fydd yn cael eu darparu ar y safle.

Bydd yr awdurdod trwyddedu fel arfer yn ystyried ffafrio ymgeiswyr sy'n dymuno bod safle mewn ardaloedd sy'n sensitif i sŵn yn aros ar agor ar ôl yr amser cau rheolaidd ar nifer penodol o achlysuron (megis Gwyliau Banc a phenwythnosau sy'n rhagflaenu Gwyliau Banc neu achlysuron arbennig) cyn belled â bod:

Nifer yr estyniadau wedi eu cynnwys yn eu hatodlen weithredu a bod camau i fynd i'r afael â niwsans cyhoeddus wedi cael eu hystyried,

A

Bod yr awdurdod yn cael rhybudd ymlaen llaw bob tro y mae bwriad i aros ar agor yn hwy.

Os na cheir sylwadau perthnasol, fodd bynnag, bydd yr awdurdod yn caniatáu'r cais.

Gall ymgeiswyr hefyd ystyried defnyddio'r weithdrefn Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro ar gyfer achlysuron arbennig neu Wyliau Banc neu arbennig.

Pan dderbynnir sylwadau perthnasol, bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried amodau llymach o ran rheoli sŵn mewn lleoliadau sy'n sensitif i sŵn megis ardaloedd preswyl.

5.17 Polisi mewn perthynas ag amddiffyn plant rhag niwed:

Ni fydd penderfyniadau'n ceisio cyfyngu ar fynediad gan blant i unrhyw safle oni bai ei bod yn briodol er mwyn atal niwed corfforol, moesol neu seicolegol iddynt. Nid

yw'n bosib i'r polisi trwyddedu hwn ragweld pob mater o bryder a allai godi yng nghyswllt plant mewn perthynas â safleoedd unigol ac felly byddir yn ymdrin â phob achos yn ôl ei rinweddau. Fodd bynnag, mae'r awdurdod hwn yn credu ei bod yn gwbl annerbyniol gwerthu alcohol i blant neu drwy ddirprwy i blant. Bydd amodau sy'n ymwneud â mynediad gan blant i safleoedd lle gwerthir alcohol, ac sy'n briodol i'w hamddiffyn rhag niwed, yn cael eu hystyried yn ofalus pan dderbynnir sylwadau perthnasol. Dangosir darpariaethau mwy manwl yn Adran 7.

## 6. POLISI ARBENNIG: ARDAL EFFAITH GRONNUS

Mae'r awdurdod wedi ystyried y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref o dan Adran 182 Deddf Trwyddedu 2003 wrth ystyried a ddylid cynnal CIA.

Nid yw cyhoeddi CIA yn newid y ffordd sylfaenol y gwneir penderfyniadau o dan Ddeddf 2003. Bydd pob penderfyniad mewn ardal sy'n destun CIA yn cael ei wneud fesul achos unigol a gyda golwg ar yr hyn sy'n briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Nid yw cyhoeddi CIA yn effeithio ar ddisgresiwn yr awdurdod trwyddedu i ganiatáu ceisiadau am drwyddedau neu geisiadau newydd i amrywio trwyddedau presennol, lle mae'r awdurdod o'r farn bod hyn yn briodol yng ngoleuni amgylchiadau unigol yr achos.

Effaith cyhoeddi'r CIA yw bod yr awdurdod trwyddedu o'r farn bod y nifer o drwyddedau mangre a/neu dystysgrifau mangreoedd clwb yn ardal ragnodedig canol tref Pen-y-bont ar Ogwr yn golygu ei bod yn debygol y byddai rhoi trwyddedau pellach yn anghyson â dyletswydd yr awdurdod i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Crynodeb o'r CIA os caiff ei gymeradwyo:

## 7. DARPARIAETHAU O RAN AMDDIFFYN PLANT RHAG NIWED

7.1 Y corff penodedig sy'n cynghori ynghylch amddiffyn plant rhag niwed yw'r tîm Asesu a Chyngor Cychwynnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Diogelu Plant).

7.2 Lle ceir sylwadau perthnasol, bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried gosod amodau sy'n cyfyngu ar fynediad gan blant i safleoedd dan yr amgylchiadau canlynol:

- Lle caiff adloniant neu wasanaethau sydd ar gyfer oedolion yn unig eu darparu;
- Lle cafwyd aelod neu aelodau o dîm rheoli presennol y safle'n euog o weini alcohol i rai dan oed neu lle mae ganddynt enw am ganiatáu yfed dan oed (ac eithrio yng nghyd-destun yr esemptiad yn Neddf 2003 sy'n ymwneud â phobl ifanc 16 ac 17 oed yn yfed cwrw, gwin a seidr yng nghwmni oedolyn yn ystod pryd o fwyd wrth fwrdd);
- Lle mae'n hysbys bod mynediad wedi cael ei ganiatáu i blant heb oedolyn yn gwmni iddynt;
- Lle mae cysylltiad hysbys â chymryd neu werthu cyffuriau;
- Safle lle mae elfen gref o gamblo
- Lle cyflenwir alcohol fel unig neu brif ddiben y safle; a
- Safle lle mae adloniant plant yn cael ei ddarparu a hynny heb dystiolaeth ddigonol bod trefniadau priodol i oruchwylio plant yn dod i mewn, plant yn gadael, a diogelwch a lles y plant.

7.3 Mae'r awdurdod trwyddedu hefyd yn ymwybodol y gall gweithgareddau, megis adloniant oedolion, gael eu cynnal ar adegau penodol ar safleoedd ond nid ar adegau eraill. Er enghraifft, gall safleoedd weithredu fel caffi-bar yn ystod y dydd gan ddarparu prydau bwyd ar gyfer teuluoedd ond gall hefyd ddarparu adloniant â chynnwys rhywiol ar ôl 8.00pm. Nid yw'n bosib rhoi rhestr gynhwysfawr o'r hyn sy'n gyfystyr ag adloniant neu wasanaethau ar gyfer oedolion yn unig neu o natur rywiol. Mae disgwyl i ymgeiswyr a'r awdurdodau cyfrifol ystyried y pwynt yma'n ofalus. Mae'r awdurdod trwyddedu'n ystyried bod y mater hwn yn fras yn cynnwys staff bar bronnoeth, strip-bryfocio, dawnsio glin, dawnsio bwrdd neu ddawnsio polyn, perfformiadau sy'n cynnwys ffugio trais neu ddigwyddiadau dychrynllyd, ffugio neu gyflawni gweithredoedd rhywiol neu ffetisiaeth, neu adloniant sy'n cynnwys iaith gref a ffiaidd.

7.4 Mae'r awdurdod trwyddedu'n disgwyl i ymgeiswyr fod yn glir yn eu hatodlenni gweithredu ynglŷn â'r gweithgareddau a'r amseroedd pan fyddai digwyddiadau'n cael eu cynnal i helpu i bennu pryd y mae'n amhriodol i blant fynd i mewn i'r safle. Dylid hefyd ystyried agosrwydd y safle at ysgolion a chlybiau ieuenctid fel bod ymgeiswyr yn cymryd camau priodol i sicrhau nad yw hysbysebion sy'n ymwneud â'u safle, neu sy'n ymwneud â digwyddiadau yn eu safle, yn cael eu harddangos ar amser pan fo plant yn debygol o fod yn agos at y safle.

7.5 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n disgwyl i ymgeiswyr, wrth baratoi atodlen weithredu neu atodlen weithredu ar gyfer clwb, nodi'r camau y byddant yn eu cymryd i amddiffyn plant rhag niwed pan fônt ar y safle.

7.6 Dylai amodau, boed yn cael eu cynnig neu eu gorfodi yn dilyn cael sylwadau perthnasol, adlewyrchu'r gweithgareddau trwyddedadwy sy'n digwydd ar y safle. Yn ogystal â'r amod gorfodol ynghylch gwirio oedran, gall yr awdurdod trwyddedu ystyried amodau eraill sy'n ymwneud ag amddiffyn plant rhag niwed, er enghraifft:

- Cyfyngiadau ar yr oriau pan all plant fod yn bresennol;
- Cyfyngiadau neu waharddiadau ar bresenoldeb plant dan oedrannau penodol pan fo gweithgareddau penodedig arbennig yn digwydd;
- Cyfyngiadau ar y rhannau o'r safle y gall plant fynd iddynt;
- Cyfyngiadau oedran (o dan 18);
- Cyfyngiadau neu waharddiadau pan fo gweithgareddau penodol yn digwydd;
- Gofynion bod oedolyn gyda'r plant (gan gynnwys, er enghraifft, cyfuniad o;
- Ofynion sy'n amodi bod rhaid i blant dan oedran arbennig fod gydag oedolyn); a
- Gwaharddiad llawn ar bobl dan 18 o'r safle pan fo unrhyw weithgareddau trwyddedadwy yn digwydd.

7.7 Yn dilyn derbyn sylwadau perthnasol, bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried pa un a ddylid atodi amod wrth drwydded safle neu dystysgrif safle clwb sy'n ei gwneud yn ofynnol i nifer digonol o staff sy'n oedolion fod yn bresennol ar y safle i sicrhau lles plant yn ystod unrhyw argyfwng mewn theatr sy'n cynnig adloniant sydd wedi'i fwriadu'n bennaf ar gyfer plant.

## 8. INTEGREIDDIO STRATEGAETHAU

8.1 Bydd y Cyngor yn ystyried, fel y bo'n briodol, unrhyw wybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â diogelwch cymunedol, camddefnyddio sylweddau, anabledd,

cydraddoldeb, cludiant, twristiaeth, datblygu economaidd a materion diwylliannol. Bydd y Cyngor yn monitro'r meysydd hyn a lle y dangosir bod gweithgareddau trwyddedu'n effeithio'n anffafriol ar y meysydd hyn bydd hynny'n cael ei wneud yn hysbys i'r pwyllgor sy'n gyfrifol am y meysydd hyn.

8.2 Bydd cyfundrefnau cynllunio, rheoli adeiladu a thrwyddedu'r awdurdod yn cael eu gwahanu'n briodol er mwyn osgoi dyblygu ac aneffeithlonrwydd. Ni fydd Pwyllgorau Trwyddedu'n cael eu rhwymo gan benderfyniadau a wnaed gan Bwyllgor Cynllunio ac ni fydd y gwrthwyneb yn digwydd ychwaith. Nid yw cael caniatâd gan Bwyllgor Trwyddedu ar gyfer amrywiad i drwydded sy'n ymwneud ag addasiad sylweddol i adeilad yn golygu nad oes angen i ymgeisydd wneud cais am ganiatâd cynllunio neu ganiatâd rheoli adeiladu lle bo hynny'n briodol. Mae'r awdurdod trwyddedu hefyd yn cydnabod y gall oriau terfynol ar gyfer caniatâd cynllunio fod yn wahanol i oriau trwyddedu ac felly mae'n rhaid i weithredydd gadw at yr amser cau cynharach.

8.3 Caiff ymgeiswyr eu cyfeirio at dudalennau Cydraddoldeb y Cyngor https://www.bridgend.gov.uk/cy/fy-nghyngor/cydraddoldeb-ac-ymgysylltu/cydraddoldeb-ac-amrywiaeth/

8.4 Ni fydd amodau mewn perthynas â thrwydded yn cael eu gosod lle byddent yn dyblygu cyfundrefnau rheoleiddio eraill neu ddeddfwriaeth arall; mae hyn yn cynnwys deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn y gwaith, diogelwch tân, anabledd neu gydraddoldebau.

8.5 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n rhoi ystyriaeth i strategaethau diwylliannol sy'n ymwneud â'r manteision diwylliannol ac economaidd ehangach i'r gymuned sy'n deillio o hyrwyddo cerddoriaeth fyw, dawns a theatr. Wrth ddod i benderfyniad, caiff y potensial ar gyfer aflonyddwch mewn cymdogaethau ei bwyso a'i fesur yn ofalus ar y cyd â'r manteision ehangach hyn a ffocws ar yr amcanion trwyddedu a rhinweddau unigol y cais.

8.6 Gellir cael copïau o bolisïau'r Cyngor ar www.bridgend.gov.uk neu oddi wrth adrannau unigol y Cyngor. Mae tudalennau gwe'r awdurdod trwyddedu i'w cael dan y pennawd Trwyddedu yn y Mynegai A-Y i'r Gwasanaethau.

## 9. CAMAU I HYRWYDDO'R AMCANION TRWYDDEDU

9.1 Bydd yr adrannau hyn yn berthnasol i bob sector yn y fasnach drwyddedig, gan gynnwys Safleoedd Clybiau, y sector manwerthu a digwyddiadau y mae Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro yn gymwys iddynt. Fodd bynnag, mae'r awdurdod trwyddedu'n cydnabod y dylai ymgeiswyr, trwyddedigion presennol a defnyddwyr safleoedd ystyried dim ond y materion hynny sy'n berthnasol i arddull a nodweddion unigol eu safle/ac neu ddigwyddiadau. Mae'r awdurdod trwyddedu'n annog cyswllt rhwng ymgeiswyr ac awdurdodau cyfrifol pan fo atodlenni gweithredu ac asesiadau risg yn cael eu drafftio.

9.2 Wrth lunio atodlen weithredu rhaid i ymgeiswyr gydymffurfio â'r rheoliadau o ran cwblhau ceisiadau. Efallai y byddant hefyd am ystyried y pwyntiau canlynol ond nid oes unrhyw rwymedigaeth statudol arnynt i wneud hynny. Dylai ymgeiswyr ac awdurdodau cyfrifol gofio na ddylent gynnig amodau sy'n dyblygu troseddau a nodir yn Neddf Drwyddedu 2003 neu mewn deddfwriaeth bresennol.

9.3 Yr ymgeisydd sy'n gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth heblaw deddfwriaeth trwyddedu. Mae'r awdurdod yn ystyried bod yr wybodaeth fwyaf cyfoes ar gael ar wefan y Swyddfa Gartref.

9.4 Mae'r amcanion trwyddedu canlynol i gyd yr un mor bwysig â'i gilydd. Dylai ymgeiswyr nodi y gall yr awdurdod trwyddedu hefyd ddatblygu casgliadau o amodau sy'n seiliedig ar Ganllawiau'r Swyddfa Gartref, casgliadau y gellir dewis amodau angenrheidiol a chymesur ohonynt os ceir sylwadau perthnasol.

9.5 Atal Troseddau ac Anhrefn

Mae Adran 17 o Ddeddf Troseddau ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor a'r awdurdod trwyddedu i ystyried lleihau troseddau ac anhrefn wrth gyflawni eu dyletswyddau. Wrth fynd i'r afael â throseddau ac anhrefn, dylai ymgeiswyr yn gyntaf adnabod unrhyw faterion penodol (gan roi ystyriaeth i'w math arbennig hwy o safle ac/neu weithgareddau) sy'n debygol o gael effaith andwyol ar hybu'r amcan sy'n ymwneud â throseddau ac anhrefn. Dylid cynnwys unrhyw gamau a fydd yn ofynnol er mwyn ymdrin â'r materion hyn yn yr atodlen weithredu. Dylai amodau dargedu'r amcan i atal troseddau ac anhrefn.

a) Gosod a chynnal a chadw teledu cylch cyfyng y tu mewn a thu allan i'r safle, gan gynnwys union leoliad camerâu ar gynlluniau i sicrhau bod ardaloedd yn cael eu gwylio'n briodol.

b) Polisi cyffuriau ysgrifenedig sy'n ymdrin â chwilio cwsmeriaid, atafaelu cyffuriau a storio cyffuriau a atafaelwyd ar y safle.

c) Defnyddio Staff Drws sydd wedi'u cofrestru gyda SIA a nifer o staff drws sy'n cyd-fynd â'r gymhareb gytunedig rhwng staff drws a chwsmeriaid.

d) Polisi hyfforddiant mewn perthynas ag atal troseddau ac anhrefn ar y safle.

e) Gwybodaeth am ac/neu ddarparu cludiant ar gyfer cwsmeriaid.

f) Mabwysiadu Nitenet neu gyswllt radio uniongyrchol tebyg.

g) Bod yn aelod o gynlluniau gyda thrwyddedigion eraill i atal troseddau ac anhrefn.

h) Cadw llyfr digwyddiadau i gofnodi troseddau ac anhrefn.

i) Ymlynu wrth arfer gorau a gyhoeddwyd mewn perthynas â chlybiau nos, lleoliadau dawnsio, digwyddiadau dawnsio awyr-agored a'u tebyg.

j) Defnyddio llestri plastig a gwydr gwydn ar bob adeg neu ar adegau penodol, neu ar gyfer digwyddiadau penodol neu gyfnodau penodol yn ystod y flwyddyn.

k) Polisi o ran rheoli cwsmeriaid sy'n yfed y tu allan i'r safle er mwyn lleihau i'r eithaf y potensial ar gyfer troseddau, anhrefn, ymddygiad gwrthgymdeithasol a niwsans i'r cyhoedd, a allai gynnwys mesurau i atal pobl rhag mynd â gwydrau a photeli i'r awyr agored.

l) Polisi ysgrifenedig i gynghori staff ynghylch diogelu pobl ifanc ac oedolion agored i niwed.

m) Defnyddio clicwyr neu fesurau eraill i atal gorlenwi.

n) Polisi ar fynediad olaf neu ail-fynediad ar y safle gan gynnwys mesurau i reoli cwsmeriaid sy'n ysmygu lle nad oes ardal addas o fewn libart y safle ar gyfer cwsmeriaid o'r fath.

o) Mesurau i atal troseddau ac anhrefn rhag digwydd os darperir adloniant sydd ar gyfer oedolion yn unig neu o natur rywiol ac/neu'n cynnwys iaith gref neu sarhaus.

p) Mesurau i atal gwerthu i rai dan oed, er enghraifft gofyn wrth y tiliau a chofrestrau gwrthod.

q) Posteri atal troseddau/Cyrraedd Adref yn Saff.

r) Gwahardd cwsmeriaid sy'n cario poteli agored neu boteli sydd wedi'u selio rhag mynd i mewn i'r safle.

s) Gwahardd cwsmeriaid rhag mynd â diodydd alcoholaidd neu ddiodydd eraill oddi ar y safle mewn gwydrau a photeli agored er mwyn atal y cynwysyddion hyn rhag cael eu defnyddio fel arfau treisgar yn y strydoedd cyfagos wedi i unigolion adael y safle.

t) Systemau rheoli ciwiau y tu mewn a'r tu allan i'r safle.

u) Patrolau mewnol gan reolwyr.

9.6 Diogelwch y Cyhoedd

Lle bo ymgeisydd yn adnabod mater sy'n ymwneud â diogelwch y cyhoedd (gan gynnwys diogelwch tân) nad yw wedi'i gynnwys mewn deddfwriaeth bresennol, dylai nodi yn yr atodlen weithredu pa gamau fydd yn cael eu cymryd i sicrhau diogelwch y cyhoedd.

a) Nifer y bobl sy'n mynychu'r safle.

b) Proffil cwsmeriaid (oedran, anabledd ac ati).

c) Mesurau diogelwch tân a mesurau atal tân nad ydynt wedi'u cynnwys mewn cyfundrefnau rheoleiddio eraill.

d) Mesurau rheoli gan y rheolwyr o fewn y safle.

e) Dyluniad, adeiladwaith a gweithrediad y safle, gan gynnwys toiledau, goleuadau, goleuadau strôb ac ati.

f) Hyfforddiant ar gyfer staff mewn ymwybyddiaeth o anabledd a gweithdrefnau ar gyfer gwacau'r safle.

g) Defnydd o effeithiau arbennig megis pyrotechneg, laserau, peiriannau mwg, peiriannau ewyn.

h) Profi systemau trydanol yn rheolaidd a darparu offer diogelu RCD.

i) Ymwybyddiaeth o effeithiau camddefnyddio alcohol a sylweddau eraill.

9.7 Niwsans Cyhoeddus

Mae gan safleoedd trwyddedig y potensial i gael effaith andwyol ar y gymuned leol. Mae'r awdurdod trwyddedu'n cydnabod bod yn rhaid cael cydbwysedd rhwng busnesau lleol, amrywiaeth ddiwylliannol a'r angen i ddiogelu'r trigolion lleol rhag niwsans.

Mae'r awdurdod trwyddedu'n deall bod niwsans cyhoeddus yn cynnwys y canlynol: sŵn a chynnwrf, aroglau, sbwriel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae'r awdurdod trwyddedu'n cydnabod lle bo gerddi neu fyrddau a chadeiriau'n cael eu gosod y tu allan i'r safle, y gall rhai sy'n eu defnyddio achosi niwsans. Os yw adeiladau preswyl yn edrych dros fyrddau a chadeiriau o flaen y safle trwyddedig neu mewn gerddi cwrw a bod sylwadau perthnasol yn dod i law, mae'n debygol y bydd yr awdurdod trwyddedu'n mabwysiadu'r safonau a geir yng nghyhoeddiad y Sefydliad Acwsteg, sef "Good Practice Guide on the Control of Noise from Pubs and Clubs" ac yn peidio â chaniatáu defnyddio'r mannau hyn cyn dechrau'r oriau masnachu arferol, ar ôl iddi dywyllu neu 9.00 pm pa un bynnag yw'r cynharaf.

Wrth fynd i'r afael â niwsans cyhoeddus, dylai'r ymgeisydd nodi unrhyw faterion penodol (gan ystyried cyffiniau'r safle, y math o safle a'r math o adloniant neu weithgaredd) sy'n debygol o gael effaith andwyol ar hybu'r amcan sy'n ymwneud ag atal niwsans cyhoeddus. Bydd yr awdurdod trwyddedu'n disgwyl bod yr atodlen weithredu'n dynodi, o ran y safleoedd hynny sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd sy'n ardaloedd preswyl yn bennaf, y bydd camau'n cael eu cymryd i leihau effaith sŵn gan gwsmeriaid sy'n ymgynnull y tu allan. Gallai mesurau eraill gynnwys:

a) Mesurau i reoli sain, cerddoriaeth a lleferydd chwyddedig ac anchwyddedig o fewn a'r tu allan i'r safle.

b) Mesurau seinglosio i gyfyngu ar sŵn a dirgryndod.

c) Gostwng lefelau sain a gosod dyfais cyfyngu ar sŵn i atal cerddoriaeth chwyddedig rhag codi'n uwch na'r lefel a gytunwyd gan y Cyngor.

d) Cadw drysau a ffenestri ynghau a darparu system awyru fecanyddol arall ddigonol (a chan sicrhau nad yw'r system awyru fecanyddol ei hun yn achosi problem gyda sŵn)

e) Rheoli gerddi, mannau chwarae ac ardaloedd awyr agored eraill i sicrhau bod y safle'n tarfu gyn lleied â phosib ar y gymdogaeth – gall hyn gynnwys cyfyngu ar yr ardaloedd lle gellir yfed diodydd alcoholaidd yn drefnus, neu'r amseroedd pan ellir eu hyfed.

f) Darparu mannau mwy tawel ar gyfer cwsmeriaid.

g) Lle bo gerddi cwrw neu fannau awyr agored cyffelyb, sicrhau nad yw cerddoriaeth chwyddedig yn cael ei throsglwyddo i fannau o'r fath a bod y mannau wedi'u

sgrinio’n briodol.

h) Defnyddio peiriannau mewn modd fel nad yw eu sŵn yn tarfu ar y gymuned.

i) Effaith meysydd parcio ar y safle a lonydd mynediad ar y gymuned leol.

j) Effaith danfon nwyddau ar y gymuned leol.

k) Lleoliad y safle mewn perthynas ag adeiladau preswyl, ysbytai, mannau addoli ac ati.

l) Mabwysiadu polisi “mynediad olaf”.

m) Gosod arwyddion amlwg wrth allanfeydd y safle’n gofyn i gwsmeriaid adael yn dawel a pheidio â chlepian drysau ceir ac, ar amseroedd priodol, gwneud cyhoeddiadau i’r un perwyl.

n) Cyfarwyddo staff drws a staff eraill i ofyn i gwsmeriaid sy’n gadael y safle i adael yr ardal yn dawel.

o) Asesiadau rheolaidd gan staff neu reolwyr i asesu a oes unrhyw broblemau a phenderfynu sut orau i ymdrin â hwy.

p) Gostwng sain y gerddoriaeth tuag at ddiwedd y nos a, lle bo hynny’n briodol, chwarae cerddoriaeth fwy tawel ac esmwyth wrth i’r noson dynnu at ei therfyn.

q) Ystyried gwahardd pobl o’r safle os ydynt yn aml yn swnllyd wrth adael.

r) Cynyddu lefelau’r goleuadau y tu allan (ond yn y fath fodd fel nad yw’n achosi niwsans i drigolion cyfagos)

s) Gwacau cysgodfeydd ysmygu, patios neu unrhyw ardaloedd eraill o’r fath lle mae cwsmeriaid yn ysmygu, erbyn 2300 o’r gloch fan bellaf.

t) Annog cwsmeriaid i ddychwelyd i’r adeilad cyn gynted â phosib e.e. eu hatal rhag mynd â diodydd allan, cyfyngu ar nifer y byrddau a’r cadeiriau, peidio â gosod cysgodfeydd ysmygu na defnyddio gwresogyddion patio.

u) Darparu staff drws a staff eraill i arolygu’r ardaloedd ysmygu ac i sicrhau bod drysau’n cael eu cadw ynghau pan fydd cerddoriaeth chwyddedig yn cael ei chwarae.

9.8 Amddiffyn Plant rhag Niwed

Gall y mathau o gamau sy’n ofynnol i gyflawni’r amcan trwyddedu hwn gynnwys:

a) Mathau o adloniant a ddarperir, yn enwedig os ydynt wedi’u hanelu’n bennaf at blant.

b) Dylai ymgeiswyr nodi a ydynt yn bwriadu cynnal adloniant sydd ar gyfer oedolion yn unig neu o natur rywiol neu sy’n cynnwys iaith gref neu sarhaus er mwyn i’r Cyngor

allu ystyried y risg o safbwynt hybu'r amcanion trwyddedu, yn enwedig amddiffyn plant rhag niwed.

c) Hyfforddiant ar gyfer staff i'w gwneud yn ymwybodol o droseddau.

d) Hyfforddiant ar gyfer staff mewn perthynas ag amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed ar y safle gan gynnwys mesurau profi oedran ac ymwybyddiaeth o werthu alcohol trwy ddirprwy.

e) Cefnogaeth weithredol a gorfodi Cynllun Profi Oedran (e.e. Cynllun Validate).

f) Cyfyngiadau oedran.

g) Eithrio plant o fannau penodol.

h) Gofynion o ran goruchwyliaeth gan oedolion.

i) Asesiad risg o'r peryglon.

j) Lleoli peiriannau sigarennau mewn mannau lle gall staff eu gweld yn rhwydd.

Gall Adran Safonau Masnach y Cyngor roi cyngor ynghylch Cynlluniau Profi Oedran.

## 10. CYDYMFFURFIO

10.1 Lle bo angen, caiff camau gorfodi eu cymryd yn unol ag egwyddorion y Concordat Gorfodi a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth ac Egwyddorion Hampton.

10.2 Mae'r Cyngor yn datblygu strategaeth ar y cyd gyda chyrff cyfrifol sy'n ymorol am dargedu safleoedd y cytunwyd eu bod yn broblem ac/neu'n achosi risg uchel ac y mae angen rhoi mwy o sylw iddynt, tra bwriedir defnyddio dull “llai manwl” gyda safleoedd sy'n achosi risg isel neu'r rheiny sy'n cael eu rhedeg yn dda. Bydd yr awdurdod trwyddedu ac awdurdodau cyfrifol yn rhoi rhybudd cynnar i drwyddedigion a busnesau ynghylch problemau, ac yn rhoi esboniadau eglur o'r hyn y mae angen ei wneud, cynlluniau gweithredu, a graddfeydd amser er mwyn datrys problemau. Bydd camau gweithredu ffurfiol yn cael eu cymryd os ystyrir fod hyn yn hanfodol er mwyn hybu'r amcanion trwyddedu.

10.3 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n cynnal arolygiadau er mwyn penderfynu a yw deiliad trwydded yn cydymffurfio ag amodau'r drwydded. Gellir cynnal yr ymweliadau hyn fel arolygiadau ar y cyd gyda chyrff statudol neu awdurdodau cyfrifol eraill.

10.4 Er bod y broses adolygu'n fodd allweddol i amddiffyn y gymuned leol, dylai trigolion neu fusnesau lleol a chanddynt bryderon ynghylch y safle gysylltu â'r asiantaeth berthnasol yn y lle cyntaf. Gall y Cyngor hefyd weithredu fel y pwynt cyswllt ar gyfer pryderon trwy licensing@bridgend.gov.uk

## 11. GWEINYDDU, CYFLAWNI A DIRPRWYO SWYDDOGAETHAU

11.1 Wrth benderfynu ar geisiadau, bydd yr awdurdod trwyddedu'n mabwysiadu egwyddor dirprwyo yn unol â'r Ddeddf a'r Canllawiau er mwyn cyflymder, effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd. Gellir cael mynediad at Gyfansoddiad y

Cyngor, ei Gynllun Dirprwyo i Swyddogion a'i God Ymarfer i Aelodau yn www.bridgend.gov.uk

## 12. ADOLYGIADAU O DRWYDDEDAU

12.1 Mae adolygiadau o drwyddedau safleoedd yn fodd allweddol i warchod y gymuned leol mewn perthynas ag unrhyw broblemau a allai godi yn ystod cyfnod trwydded safle. Mae gan unrhyw berson ac awdurdod cyfrifol hawl i gyflwyno sylwadau mewn perthynas â chais neu geisio adolygiad o drwydded neu dystysgrif o fewn darpariaethau'r Ddeddf. Byddir yn ymdrin â phob cais yn ôl ei rinweddau.

12.2 Mae'r awdurdod trwyddedu'n ei ystyried yn arfer da pan fo awdurdodau cyfrifol yn rhoi rhybudd cynnar i drwyddedigion am broblemau a'r angen i wella.

12.3 Gall unigolion neu grwpiau ofyn i gynrychiolydd gyflwyno sylwadau ar eu rhan, er enghraifft cynrychiolydd cyfreithiol, cyfaill, Aelod Seneddol, Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Aelodau o'r awdurdod trwyddedu yn rhwym wrth y Cod Ymarfer i Aelodau pan ydynt yn cymryd rhan yn y broses drwyddedu.

12.4 Pan fo'r awdurdod trwyddedu'n gwneud penderfyniad ynghylch cais bydd yn rhoi rhesymau a hynny'n ysgrifenedig ac mewn fformatau eraill os gofynnir.

12.5 Er mwyn tryloywder a thegwch, bydd yr awdurdod trwyddedu fel arfer yn trefnu bod manylion personol trigolion a phartïon eraill ar gael fel rhan o broses y gwrandawiad oni bai fod y person yn gwrthod caniatâd neu fod rhesymau eithriadol a chymhellol dros fod angen gwneud hyn. Caiff pob achos ei benderfynu yn ôl ei rinweddau mewn ymgynghoriad gyda'r person dan sylw.

12.6 Gall unrhyw berson gyflwyno sylwadau'n electronig i'r awdurdod trwyddedu trwy licensing@bridgend.gov.uk gan gynnwys enw'r sawl neu'r bobl sy'n cyflwyno'r sylwadau a chyfeiriad post. Dylai ymholiadau hygyrchedd gael eu cyfeirio at yr Isadran Trwyddedu yn y lle cyntaf.

## 13. HYSBYSIADAU DIGWYDDIAD DROS DRO

13.1 Nid oes unrhyw bolisïau arbennig yn gymwys i Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro. Mae manylion llawn y broses i'w gweld yn www.homeoffice.gov.uk. Dylai trefnwyr digwyddiadau gymryd sylw arbennig o'r cyfeiriadau ac ystyr y term "diwrnodau gwaith" wrth gyfrifo pryd i gyflwyno Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro.

13.2 Er nad yw'n ofyniad gorfodol, yn aml gall cysylltu a thrafod yn gynnar gyda Heddlu De Cymru a thîm Gwarchod y Cyhoedd yn y Cyngor mewn perthynas â Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro arfaethedig leihau'r tebygolrwydd o gael hysbysiad gwrthod am resymau sy'n ymwneud â throseddau ac anhrefn neu niwsans cyhoeddus. Byddai'r Cyngor yn erfyn yn daer ar bob person i roi o leiaf 28 diwrnod o rybudd i'r Cyngor ynghylch digwyddiad (ac o leiaf ddau i dri mis neu fwy o rybudd ar gyfer digwyddiadau awyr agored mwy) er mwyn i'r trefnydd allu cael mynediad at Wybodaeth am Ddiogelwch Digwyddiadau, mannau cyswllt a chyngor trwy'r Cyngor.

13.3 Mae Heddlu De Cymru'n gofyn, er mwyn peidio â thanseilio'r amcanion atal troseddau, i drefnwyr gyflwyno Hysbysiadau Digwyddiad Dros dro i Heddlu De Cymru, Rhanbarth F, Pen-y-bont ar Ogwr, Gorsaf Heddlu Pen-y-bont, Stryd Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 1BZ a chyfeirio'r amlen at Brif Swyddog yr Heddlu. Er nad yw hynny'n ofyniad gorfodol, dylid rhoi'r geiriau "Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro" ar yr amlen hefyd.

## 14. NODIADAU ARBENNIG

14.1 Lle bo rhannau o Ddeddf Trwyddedu 2003 wedi'u hatgynhyrchu, fe'i darperir fel arweiniad er gwybodaeth yn unig. Nid ydynt yn ddatganiad llawn ac awdurdodol o'r gyfraith drwyddedu newydd. Yn arbennig, dylid nodi, er bod y Cyngor wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth yn y tudalennau hyn yn gywir, bod newidiadau i'r gyfraith a rhoi rheoliadau penodol ar waith ar gyfer trwyddedu'n golygu y gall yr wybodaeth ategol yn y tudalennau hyn newid.

## 15. YMGYNGHORI

15.1 Cafodd y datganiad polisi drafft, gan gynnwys yr wybodaeth a ddarparwyd gan Heddlu De Cymru yn Atodiad Dau, ei gyhoeddi trwy wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr rhwng a 2019. Fe ymgynghorwyd â'r Awdurdodau Cyfrifol, asiantaethau partner, Aelodau o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chynghorau Tref a Chymuned.

15.2 Paratowyd y Datganiad Polisi Trwyddedu hwn gan yr Adain Trwyddedu a Chofrestru, Y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac fe'i cymeradwywyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ei gyfarfod ar 2019.

## 16. APELIADAU

16.1 Yn achos trwydded safle, dylid cyflwyno apêl i lys ynadon yr ardal llys ynadon y mae'r safle wedi'i leoli ynddi. (Llys Ynadon Caerdydd a'r Fro)

16.2 Yn achos trwydded bersonol, dylid cyflwyno apêl i lys ynadon yr ardal llys ynadon lle rhoddwyd y drwydded bersonol.

16.3 Caiff yr hawliadau apelio sydd gan rai sy'n tybio iddynt gael cam yn sgîl penderfyniadau'r Cyngor eu nodi yn Atodlen 5 Deddf Trwyddedu 2003.

**AWDURDODAU CYFRIFOL**

| | |
|---|---|
| Prif Swyddog yr Heddlu | Y Prif Gwnstabl<br>Heddlu De Cymru<br>Gorsaf Heddlu Pen-y-bont ar Ogwr<br>Rhanbarth ‘F’ Pen-y-bont ar Ogwr<br>Stryd Bracla<br>Pen-y-bont ar Ogwr<br>CF31 1BZ |
| Yr Awdurdod Tân | Y Prif Swyddog Tân<br>Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru<br>Yr Adran Diogelwch Tân<br>Parc Busnes Forest View<br>Llantrisant. CF72 8LX |
| Yr awdurdod gorfodi ar gyfer Adran 18 o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 | Swyddfa’r Adran Weithredol Iechyd a Diogelwch<br>Adeiladau’r Llywodraeth<br>Tŷ Glas<br>Llanisien<br>Caerdydd . CF14 5SH |
| Yr Awdurdod Cynllunio Lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr<br>Rheoli Datblygu<br>Y Gyfarwyddiaeth Cymunedau<br>Y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel<br>Pen-y-bont ar Ogwr<br>CF31 4WB |
| Yr awdurdod lleol y mae swyddogaethau statudol yn arferadwy ganddo mewn perthynas â lleihau i’r eithaf neu atal risg o lygru’r amgylchedd neu o beri niwed i iechyd dynol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr<br>Adran Gwarchod y Cyhoedd<br>Y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol<br>Cyfeiriad fel uchod<br>(01656) 643260<br>publicprotection@bridgend.gov.uk |
| Y corff sy’n cynrychioli’r rheiny sy’n gyfrifol am, neu y mae a wnelont â, materion sy’n ymwneud ag amddiffyn plant rhag niwed | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr<br>Y Gyfarwyddiaeth Plant<br>Y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel<br>Pen-y-bont ar Ogwr<br>CF31 4WB |
| Y Bwrdd Iechyd Lleol<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | Swyddfa Ardal Pen-y-bont ar Ogwr<br>Y Ganolfan Arloesi<br>Llawr 1af<br>Canolfan Oldway,<br>36 Stryd y Berllan,<br>Abertawe<br>SA1 5AQ |

Gall y manylion hyn newid o bryd i’w gilydd ac fe gynghorir ymgeiswyr i gysylltu â’r Adain Drwyddedu i gael y manylion cyswllt cyfredol

Canol Tref Pen-y-bont
Ffynhonnell: Heddlu De Cymru

Pwrpas yr adroddiad canlynol yw darparu crynodeb o berfformiad mewn perthynas â lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau yn ward Morfa, Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r ardal hon yn cynnwys canol tref Pen-y-bont yn ogystal ag Ystâd y Felin Wyllt.

Mae'r data'n cwmpasu'r 3 blynedd ddiwethaf ac mae wedi'i rannu yn ôl categorïau penodol o droseddau ac anhrefn a misoedd, gan amlygu'r newidiadau mewn lefelau – y lefel uchaf mewn coch, y lefel isaf mewn gwyrdd. Mae'r data hefyd yn dangos y diwrnodau allweddol o'r wythnos pan hysbyswyd ynghylch troseddau ac anhrefn a'r oriau brig yn ystod y dydd.

## 1. CYFANSWM TROSEDDAU

Dros y 3 blynedd ddiwethaf cyflawnwyd 3,102 o droseddau yn ward Morfa. Bu tuedd gyffredinol tuag i lawr o flwyddyn i flwyddyn. Yn 2013/14, gostyngodd y lefel 5.9% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sydd hefyd yn ostyngiad o 20.8% o'i gymharu â lefelau 2011/12.

| | Ebr | Mai | Meh | Gorff | Awst | Medi | Hyd | Tach | Rhag | Ion | Chwe | Maw | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2011/12 | 99 | 115 | 100 | 120 | 107 | 90 | 115 | 90 | 87 | 93 | 82 | 80 | **1,178** |
| 2012/13 | 97 | 114 | 81 | 83 | 91 | 76 | 67 | 79 | 81 | 41 | 85 | 96 | **991** |
| 2013/14 | 88 | 63 | 69 | 84 | 84 | 78 | 105 | 63 | 96 | 75 | 55 | 73 | **933** |
| **Cyfanswm** | **284** | **292** | **250** | **287** | **282** | **244** | **287** | **232** | **264** | **209** | **222** | **249** | **3,102** |

Ar gyfartaledd, mae'r troseddau ar eu huchaf ym mis Mai, a'r lefelau isaf o droseddau yr hysbysir yn eu cylch ym mis Ionawr.

Yn ystod 2013/14, hysbyswyd ynghylch y nifer fwyaf o droseddau ar ddydd Sul (19%), gyda dydd Sadwrn (18%) a dydd Llun (15%) yn dilyn. Y diwrnod pan hysbyswyd ynghylch y nifer isaf o droseddau oedd dydd Mawrth (10%).

Yr oriau brig o ran hysbysu ynghylch troseddau oedd rhwng 10:00 a 17:00 yn ystod y dydd, gyda'r gyfradd ar ei huchaf am 14:00.

Y 5 stryd â'r mwyaf o droseddau, yn eu trefn, oedd: Heol y Dderwen, Heol Quarella, Stryd y Farchnad, Stryd Wyndham a Stryd Caroline.

## 2. TRAIS TUAG AT BERSON

Mae'r grŵp troseddau trais tuag at berson yn cynnwys categorïau ymosodiadau gyda a heb anaf yn ogystal â throseddau aflonyddu lefel is.

Dros y 3 blynedd ddiwethaf bu 951 o droseddau yn ward Morfa. Yn 2012/13, gostyngodd lefel y troseddau 23.9%, ac arhosodd y lefel hon yr un fath yn 2013/14.

| | Ebr | Mai | Meh | Gorff | Awst | Medi | Hyd | Tach | Rhag | Ion | Chwe | Maw | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2011/12 | 34 | 42 | 36 | 38 | 34 | 37 | 33 | 21 | 32 | 16 | 30 | 24 | **377** |
| 2012/13 | 32 | 18 | 21 | 22 | 22 | 22 | 19 | 23 | 38 | 11 | 31 | 28 | **287** |
| 2013/14 | 28 | 23 | 20 | 25 | 19 | 19 | 30 | 21 | 31 | 26 | 16 | 29 | **287** |
| **Cyfanswm** | **94** | **83** | **77** | **85** | **75** | **78** | **82** | **65** | **101** | **53** | **77** | **81** | **951** |

Ar gyfartaledd, mae'r troseddau ar eu huchaf ym mis Rhagfyr, (dathliadau'r Nadolig mwy na thebyg). Hysbyswyd ynghylch y lefelau isaf ym mis Ionawr.

Yn ystod 2013/14, hysbyswyd ynghylch y nifer fwyaf o droseddau ar ddydd Sul (25%), gyda dydd Sadwrn (18%) a dydd Llun (16%) yn dilyn. Y diwrnod pan hysbyswyd ynghylch y nifer isaf o droseddau oedd dydd Mawrth (7%).

Yr oriau brig o ran hysbysu ynghylch troseddau oedd rhwng 23:00 a 04:00, yna'n hwyrach yn ystod y prynhawn rhwng 13:00 a 15:00, gyda'r gyfradd ar ei huchaf am 01:00.

Y 5 stryd â'r mwyaf o droseddau o'r fath, yn eu trefn, oedd: Heol y Dderwen, Stryd Wyndham, Stryd y Farchnad, Heol Quarella a Maes-Y-Felin.

## 3. YMOSODIAD GYDAG ANAF

Dros y 3 blynedd ddiwethaf cyflawnwyd 444 o droseddau yn ward Morfa. Bu tuedd gyffredinol tuag i lawr o flwyddyn i flwyddyn. Yn 2013/14, gostyngodd y lefel 0.7% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sydd hefyd yn ostyngiad o 18.9% o'i gymharu â lefelau 2011/12.

| | Ebr | Mai | Meh | Gorff | Awst | Medi | Hyd | Tach | Rhag | Ion | Chwe | Maw | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2011/12 | 15 | 24 | 15 | 14 | 14 | 14 | 12 | 12 | 19 | 5 | 12 | 13 | **169** |
| 2012/13 | 16 | 7 | 11 | 12 | 11 | 11 | 10 | 11 | 16 | 8 | 12 | 13 | **138** |
| 2013/14 | 15 | 11 | 9 | 11 | 14 | 8 | 13 | 11 | 11 | 11 | 9 | 14 | **137** |
| **Cyfanswm** | **46** | **42** | **35** | **37** | **39** | **33** | **35** | **34** | **46** | **24** | **33** | **40** | **444** |

Ar gyfartaledd, mae'r troseddau ar eu huchaf ym mis Ebrill a mis Rhagfyr, (gyda chyfraddau mis Rhagfyr unwaith eto'n gysylltiedig â dathliadau'r Nadolig mwy na thebyg). Hysbyswyd ynghylch y lefelau isaf ym mis Ionawr.

Yn ystod 2013/14, hysbyswyd ynghylch y nifer fwyaf o droseddau ar ddydd Sul (34%), gyda dydd Sadwrn (19%) a dydd Llun (17%) yn dilyn. Y diwrnodau pan hysbyswyd ynghylch y nifer isaf o droseddau oedd dydd Mawrth (5%) a dydd Mercher (7%).

Yr oriau brig o ran hysbysu ynghylch troseddau oedd rhwng 23:00 a 04:00, yna'n hwyrach yn ystod y prynhawn am 14:00, gyda'r gyfradd ar ei huchaf rhwng 01:00 a 03:00.

Y 5 stryd â'r mwyaf o droseddau o'r fath, yn eu trefn, oedd: Heol y Dderwen, Stryd Wyndham, Stryd y Farchnad, Heol Quarella a Maes-Y-Felin.

## 4. LLADRAD

Dros y 3 blynedd ddiwethaf dim ond 12 o droseddau a fu yn ward Morfa. Bu tuedd gyffredinol tuag i fyny o flwyddyn i flwyddyn. Yn 2013/14, bu cynnydd o un trosedd (25%) yn y lefel o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a oedd hefyd yn gynnydd o 2 drosedd (66.7%) o'i gymharu â lefelau 2011/12.

| | Ebr | Mai | Meh | Gorff | Awst | Medi | Hyd | Tach | Rhag | Ion | Chwe | Maw | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2011/12 | | | 1 | 1 | 1 | | | | | | | | **3** |
| 2012/13 | 1 | | 1 | | | | | | | | 2 | | **4** |
| 2013/14 | | 1 | | 1 | | 1 | | | | 1 | 1 | | **5** |
| **Cyfanswm** | **1** | **1** | **2** | **2** | **1** | **1** | **0** | **0** | **0** | **1** | **3** | **0** | **12** |

Ar gyfartaledd, mae'r troseddau ar eu huchaf ym mis Chwefror. Bu pedwar mis o'r flwyddyn pan nad oedd unrhyw droseddau, gan gynnwys y tri mis rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr).

Yn ystod 2013/14, hysbyswyd ynghylch y nifer fwyaf o droseddau ar ddydd Sul (80%), gyda dydd Mawrth (20%) yn dilyn. Ni hysbyswyd ynghylch unrhyw droseddau eraill yn ystod gweddill yr wythnos.

Yr awr frig o ran hysbysu ynghylch troseddau oedd 15:00, pan hysbyswyd ynghylch 3 throsedd. Hysbyswyd ynghylch troseddau eraill am 17:00 ac 01:00.

## 5. DIFROD TROSEDDOL

Dros y 3 blynedd ddiwethaf bu 429 o droseddau yn ward Morfa. Bu tuedd gyffredinol tuag i lawr o flwyddyn i flwyddyn. Yn 2013/14, gostyngodd y lefel 29.7% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sydd hefyd yn ostyngiad o 44.0% o'i gymharu â lefelau 2011/12.

| | Ebr | Mai | Meh | Gorff | Awst | Medi | Hyd | Tach | Rhag | Ion | Chwe | Maw | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2011/12 | 16 | 18 | 6 | 22 | 23 | 12 | 12 | 13 | 15 | 19 | 17 | 9 | **182** |
| 2012/13 | 14 | 16 | 8 | 15 | 11 | 12 | 8 | 10 | 12 | 6 | 12 | 21 | **145** |
| 2013/14 | 10 | 9 | 12 | 7 | 10 | 9 | 12 | 5 | 12 | 7 | 5 | 4 | **102** |
| **Cyfanswm** | **40** | **43** | **26** | **44** | **44** | **33** | **32** | **28** | **39** | **32** | **34** | **34** | **429** |

Ar gyfartaledd, mae troseddau ar eu huchaf rhwng mis Gorffennaf a mis Awst. Hysbyswyd ynghylch y lefelau isaf ym mis Mehefin.

Yn ystod 2013/14, hysbyswyd ynghylch y nifer fwyaf o droseddau ar ddydd Mercher (24%), gyda dydd Sul (20%) yn dilyn. Y dyddiau pan hysbyswyd ynghylch y lefelau isaf oedd dydd Mawrth (10%) a dydd Iau (10%).

Nid oes oriau brig gwahaniaethadwy ar gyfer troseddau difrod troseddol; fe hysbysir ynghylch lefelau tebyg rhwng 08:00 a 22:00.

Y 5 stryd â'r mwyaf o droseddau o'r fath, yn eu trefn, oedd: Maes-Y-Felin, Tairfelin, Heol Coety, Heol Quarella a Heol y Dderwen.

## 6. TROSEDDAU CERBYDAU

Dros y 3 blynedd ddiwethaf bu 124 o droseddau yn ward Morfa. Cyrhaeddodd y troseddau eu hanterth ym mis Mai 2012 gan gamystumio ffigyrau 2012/13, gyda'r ddwy flynedd arall ar lefelau tebyg. Yn 2013/14, gostyngodd y lefel 26.4% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond roedd hyn yn gynnydd o 21.9% o'i gymharu â lefelau 2011/12.

| | Ebr | Mai | Meh | Gorff | Awst | Medi | Hyd | Tach | Rhag | Ion | Chwe | Maw | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2011/12 | 3 | 3 | 3 | 3 | 1 | 1 | 6 | 5 | 2 | 2 | | 3 | **32** |
| 2012/13 | 4 | 20 | 5 | | 10 | 3 | 1 | 4 | 1 | 1 | 2 | 2 | **53** |
| 2013/14 | 5 | 1 | 1 | 6 | 2 | 3 | 5 | 4 | 3 | 6 | 1 | 2 | **39** |
| **Cyfanswm** | **12** | **24** | **9** | **9** | **13** | **7** | **12** | **13** | **6** | **9** | **3** | **7** | **124** |

Oherwydd yr anterth ym mis Mai 2012, mae'r niferoedd ar eu huchaf ym mis Mai; fodd bynnag, heb hyn, byddai'r lefelau'n llawer tebycach ar draws 8 mis cyntaf y flwyddyn ariannol. Hysbyswyd ynghylch y lefelau isaf ym mis Chwefror.

Yn ystod 2013/14, hysbyswyd ynghylch y nifer fwyaf o droseddau ar ddydd Llun (28%), gyda dydd Mawrth (15%) yn dilyn. Y diwrnod pan hysbyswyd ynghylch y lefel isaf oedd dydd Gwener (8%).

Yr oriau brig o ran hysbysu ynghylch troseddau oedd rhwng 08:00 a 10:00 sy'n dynodi bod troseddau'n digwydd dros nos.

Y 5 stryd â'r mwyaf o droseddau o'r fath, yn eu trefn, oedd: Heol Quarella, Heol y Fynwent, Heol Coety, Stryd Morfa a Rhodfa San Siôr.

## 7. DWYN O FATH ARALL

Dros y 3 blynedd ddiwethaf bu 920 o droseddau yn ward Morfa. Mae'r categori hwn yn cynnwys yr holl droseddau dwyn nad ydynt yn cynnwys lladrad, byrgleriaeth na cherbydau. Yn 2013/14, cynyddodd y lefel 25.1% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond roedd hyn yn ostyngiad o 11.5% o'i gymharu â lefelau 2011/12.

| | Ebr | Mai | Meh | Gorff | Awst | Medi | Hyd | Tach | Rhag | Ion | Chwe | Maw | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2011/12 | 32 | 31 | 22 | 33 | 25 | 30 | 37 | 28 | 26 | 37 | 24 | 30 | **355** |
| 2012/13 | 25 | 31 | 16 | 24 | 18 | 16 | 24 | 21 | 15 | 10 | 24 | 27 | **251** |
| 2013/14 | 27 | 20 | 31 | 32 | 29 | 31 | 30 | 19 | 26 | 25 | 18 | 26 | **314** |
| **Cyfanswm** | **84** | **82** | **69** | **89** | **72** | **77** | **91** | **68** | **67** | **72** | **66** | **83** | **920** |

Ar gyfartaledd, mae'r troseddau ar eu huchaf ym mis Hydref. Hysbyswyd ynghylch y lefelau isaf ym mis Chwefror.

Yn ystod 2013/14, hysbyswyd ynghylch y nifer fwyaf o droseddau ar ddydd Sadwrn (19%), gyda dydd Llun (16%) a dydd Iau (16%) yn dilyn. Y diwrnodau pan hysbyswyd ynghylch y lefelau isaf oedd dydd Mercher (10%) a dydd Sul (11%).

Yr oriau brig o ran hysbysu ynghylch troseddau oedd rhwng 10:00 a 18:00. Troseddau dwyn o siop oedd y mwyafrif o'r rhain ac felly maent wedi digwydd yn ystod oriau agor siopau.

Y 5 stryd â'r mwyaf o droseddau o'r fath, yn eu trefn, oedd: Stryd Caroline, Heol Quarella, Stryd Adare, Heol y Dderwen a Stryd y Farchnad.

## 8. TROSEDDAU CYFFURIAU

Dros y 3 blynedd ddiwethaf bu 403 o droseddau yn ward Morfa. Mae'r categori hwn yn cynnwys yr holl droseddau cyffuriau gan gynnwys cyflenwi a meddu ar bob dosbarth o gyffuriau. Yn 2013/14, gostyngodd y lefel hon 27.3% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac roedd hyn yn ostyngiad o 24.3% o'i gymharu â lefelau 2011/12 o ganlyniad i'r cynnydd yn 2012/13. Mae'r lefelau a gofnodir yn ddibynnol iawn ar gamau rhagweithiol gan yr Heddlu.

| | Ebr | Mai | Meh | Gorff | Awst | Medi | Hyd | Tach | Rhag | Ion | Chwe | Maw | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2011/12 | 6 | 11 | 21 | 14 | 18 | 7 | 14 | 14 | 9 | 12 | 8 | 10 | **144** |
| 2012/13 | 11 | 10 | 24 | 15 | 22 | 17 | 8 | 11 | 11 | 9 | 6 | 6 | **150** |
| 2013/14 | 6 | 5 | 3 | 6 | 16 | 10 | 14 | 12 | 12 | 5 | 13 | 7 | **109** |
| **Cyfanswm** | **23** | **26** | **48** | **35** | **56** | **34** | **36** | **37** | **32** | **26** | **27** | **23** | **403** |

Ar gyfartaledd, mae'r troseddau ar eu huchaf ym mis Awst. Hysbyswyd ynghylch y lefelau isaf ym mis Mawrth a mis Ebrill.

Yn ystod 2013/14, hysbyswyd ynghylch y nifer fwyaf o droseddau ar ddydd Sul (28%), gyda dydd Sadwrn (24%) yn dilyn. Y diwrnodau pan hysbyswyd ynghylch y lefelau isaf oedd dydd Mercher (6%) a dydd Llun (9%).

Yr oriau brig o ran hysbysu ynghylch troseddau oedd rhwng 23:00 a 03:00, ac yna'n hwyrach yn ystod y prynhawn rhwng 14:00 a 17:00, gyda'r brig mwyaf am 02:00.

Y 5 stryd â'r mwyaf o droseddau o'r fath, yn eu trefn, oedd: Heol y Dderwen, Stryd y Farchnad, Heol Quarella, Heol Coety a Stryd Wyndham.

## 9. YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL

Dros y 3 blynedd ddiwethaf bu 1,928 o droseddau yn ward Morfa. Bu tuedd gyffredinol tuag i lawr o flwyddyn i flwyddyn. Yn 2013/14, gostyngodd y lefel 8.0% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a oedd hefyd yn ostyngiad o 49.7% o'i gymharu â lefelau 2011/12.

| | Ebr | Mai | Meh | Gorff | Awst | Medi | Hyd | Tach | Rhag | Ion | Chwe | Maw | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2011/12 | 103 | 87 | 82 | 109 | 96 | 74 | 71 | 66 | 61 | 59 | 62 | 71 | **941** |
| 2012/13 | 48 | 56 | 37 | 51 | 54 | 39 | 42 | 40 | 34 | 33 | 47 | 33 | **514** |
| 2013/14 | 29 | 30 | 30 | 48 | 49 | 35 | 38 | 44 | 45 | 42 | 36 | 47 | **473** |
| **Cyfanswm** | **180** | **173** | **149** | **208** | **199** | **148** | **151** | **150** | **140** | **134** | **145** | **151** | **1,928** |

Ar gyfartaledd, mae'r troseddau ar eu huchaf ym mis Gorffennaf. Hysbyswyd ynghylch y lefelau isaf ym mis Ionawr.

Yn ystod 2013/14, hysbyswyd ynghylch y nifer fwyaf o droseddau ar ddydd Sadwrn (22%), gyda dydd Sul (17%) a dydd Gwener (15%) yn dilyn. Y diwrnod pan hysbyswyd ynghylch y lefelau isaf oedd dydd Mawrth (9%).

Yr oriau brig o ran hysbysu ynghylch troseddau oedd rhwng 23:00 a 02:00 a hefyd rhwng 18:00 a 22:00, gyda'r brig mwyaf am 01:00.

Y 5 stryd â'r mwyaf o droseddau o'r fath, yn eu trefn, oedd: Heol Quarella, Stryd y Farchnad, Heol y Dderwen, Stryd Wyndham a Maes-Y-Felin.